

PAROLWG CARTREFI 2017
CRYNODEB O'R CWESTIWN BLAENORIAETHAU CYLLIDEB

CYFLWYNIAD

Ym mis Medi 2017, cynhaliwyd arolwg cartrefi manwl ar draws ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn pennu lefelau boddhad â gwasanaethau'r Cyngor yn ogystal â chanfod canfyddiadau cyfredol ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd adroddiad ystadegol llawn yn cael ei baratoi maes o law tra bod yr adroddiad cyfredol hwn yn canolbwyntio ar yr ymatebion i gwestiwn newydd a gafodd ei gynnwys yn Arolwg Cartrefi 2017 i gynorthwyo'r cyngor i adnabod blaenoriaethau trigolion. Diben y cwestiwn hwn oedd adnabod pa wasanaethau sy'n cael eu hystyried fwyaf a lleiaf pwysig gan drigolion y fwrdeistref. Bydd barn trigolion o'r arolwg hwn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â data arall a gwybodaeth ariannol wrth lunio'r cynigion ar gyfer arbedion cyllideb ar gyfer 2018/19 a thu hwnt.

METHODOLEG

Cynhaliwyd yr arolwg o'r 4^{ydd} o Fedi 2017 gyda dyddiad cau ar y 29^{ain} o Fedi 2017.

Dosbarthwyd yr arolwg mewn dwy ffordd allweddol. Mae pob cartref ym mwrdeistref sirol Caerffili yn derbyn papur newydd y cyngor, Newline bob chwarter.

Cynhwyswyd yr Arolwg Cartrefi llawn fel atodiad tudalennau canol yn rhifyn Medi 2017 o Newline. Cafodd yr arolwg ei arddangos hefyd ar Wefan y Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori. Er mwyn annog trawsdoriad o drigolion i gwblhau'r arolwg, hyrwyddwyd yr arolwg trwy offeryn Newyddion Ar-lein a chyfryngau cymdeithasol y cyngor yn ogystal â dosbarthiad wedi ei dargedu at, er enghraifft, Cynghorau Tref a Chymuned, y Fforwm 50+, Menter Iaith, Caerffili Rhwydwaith Rhieni, a fforymau eraill. Cafodd fersiynau papur eu darparu yn hwylus hefyd.

Cyfanswm yr ymatebion i'r arolwg yn 2017 oedd **2774**. Mae hyn yn cymharu gyda 1258 o ymatebion yn 2015.

ATODIAD 4

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Pan ofynnwyd iddynt am eu barn ynghylch pa wasanaethau sydd bwysicaf a pha rai sydd lleiaf pwysig iddynt hwy a'u cymuned, roedd ymatebwyr yn aml yn nodi'r gwasanaethau rheng flaen canlynol fel y rhai pwysicaf:

- Gwasanaethau Cymdeithasol, yn enwedig yn gofal henoed, pobl anabl a phlant a rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl
- Addysg
- Tai ac yn benodol datblygiad tai fforddiadwy. Yn groes i hyn cafwyd nifer o sylwadau yn ymwneud â diogelu mannau gwyrdd a sicrhau bod seilwaith yn gallu ymdopi â datblygiadau.
- Casglu ysbwriel
- Ailgylchu
- Glanhau strydoedd, palmentydd a llwybrau troed (roedd y sylwadau hyn yn aml yn cynnwys cyfeiriad at faw cŵn)

Ymysg y cyfleusterau a oedd yn amlwg o ran pwysigrwydd yn yr ymatebion yr oedd:

- Llyfrgelloedd
- Canolfannau Hamdden
- Parciau a mannau chwarae
- Parciau Gwledig

Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd y canlynol gan nifer o ymatebwyr:

- Arwynebedd ffyrdd wedi ei gynnal a'i gadw'n dda
- Darpariaeth cludiant cyhoeddus
- Rheolaeth parcio digonol (parcio ar y stryd)

Nododd nifer o ymatebwyr hefyd bwysigrwydd delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a darparu gwasanaethau i bobl ifanc (awgrymodd rhai pobl y gallai darparu gwasanaethau ieuencid helpu i gyfrannu at leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol).

Roedd llawer o'r farn bod adfywio canol trefi yn bwysig (ond yn bendant nid oes angen baneri ar bob lamp stryd). Cafwyd ymateb cymysg mewn perthynas â thwristiaeth a digwyddiadau. Mae llawer yn teimlo eu bod yn ddiangen tra bod eraill yn teimlo bod atyniadau a digwyddiadau yn annog ymwelwyr sydd, yn eu tro, yn gallu helpu i gyfrannu at adfywio.

Nodwyd pwysigrwydd cynnal iechyd da fel ffactor allweddol yn yr ymatebion. Pwysigrwydd gwasanaethau fel canolfannau hamdden, parciau ac ati er mwyn helpu trigolion i aros yn iach a'r effaith a'r pwysau posibl ar wasanaethau yn y tymor hir os nad yw pobl yn cynnal iechyd corfforol a iechyd meddwl da.

Awgrymwyd y canlynol fel ffyrdd ymlaen:

ATODIAD 4

Symleiddio'r prosesau (effeithlonrwydd) i wneud defnydd effeithiol o adnoddau.

- Cyd-leoli gwasanaethau/canolfannau cymunedol
- Gweithio rhanbarthol
- Gweithio gyda busnesau lleol a
- Cryfhau cymunedau a fydd yn ei dro yn arwain at lai o ddibyniaeth ar wasanaethau cyngor